

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020

336. Cyfansoddiad lleisiol ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd

Beirniadaeth: Ann Hopcyn

Er mai dim ond dau gyfansoddiad a ddaeth i law, roedd y ddau ddarn yn cyrraedd safon ganmoladwy.

Ffugenw: **Ella 336/1**

Ymgais annisgwyl o uchelgeisiol oedd gwaith Ella, sef gosodiad o'r Kyrie i SATB digyfeiliant, mewn arddull gwrthbwyntiol sy'n adleisio cyfnod y Dadeni. Bron yn ddieithriad, mae rhannau'r pedwar llais yn hynod ganadwy ac yn llwyddo i gyfleu ymbiliad y geiriau. Mae adeiledd y cyfanwaith yn effeithiol dros ben gyda'r ymdeimlad o fynd ar daith ond erbyn y diwedd, y boddhad o ddychwelyd i'r man cychwyn.

Gwiriwch fariau 29-32, llif llinell y tenor a'i pherthynas gyda'r rhannau eraill.

Ffugenw: **Olwen Meri 336/2**

Diolch i Olwen Meri am ddarparu copi caled, ffeiliau MP3, QuickTime a Sibelius.

Unawd i lais uchel yw 'A Ddaw Cyfle Arall' gyda chyfeiliant piano, feiolin, clarinét, gitâr fâs a drymiau mewn arddull gyfoes, boblogaidd. Mae'r alaw yn ganadwy a'r rhythmau'n ymateb yn addas i'r geiriau, sef cân serch; ceir deuawd effeithiol rhwng y llais a'r clarinét. Gwneir defnydd o ddilyniannau, mae'r harmoni'n gadarn a'r cyfan yn creu darn cofiadwy ar ôl y gwrandawriad cyntaf.

Gwiriwch (i) o ran y sgôr, mae'r clarinét yn trawsnodi a 'llais' yw'r llinell y 'trwmped'; eithriadau yw cordiau ar feiolin - os mai'r bwriad oedd cael dau offeryn i chwarae'r rhan, gwell nodi hynny.

Mae gan y ddwy ymgais eu cryfderau. Gan mai 'cyfansoddiad lleisiol' oedd dasg, credaf bod un o'r ddwy wedi mynd i'r afael â heriau cyfansoddi i'r llais yn fwy na'r llall, felly dyfernir y wobr gyntaf i Ella ac ail teilwng iawn i Olwen Meri.